Cyngor Cymuned
EGLWYS BACH
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 01-06-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Wendy Williams (Is-Gadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Austin Roberts, Gwyn Jones a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Gwilym Williams, Geraint Owen, Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (04/05/21) a cofnodion y cyfarfod blynyddol 04/05/21.

   Cynigwyd cofnodion 04/05/21 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng John Lloyd. Cynigwyd cofnodion y cyfarfod blynydol 04/05/21 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Ceri.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Cae Chwarae - adroddiad a baw ci:**

     Trafodaeth ynglŷn â baw cŵn. Mae CBSC wedi ymateb i ni i ddweud nad yw'n anghyfreithlon tynnu lluniau o berson neu gar mewn man cyhoeddus ac nad yw'n anghyfreithlon dangos delwedd i aelodau eraill y cyngor wrth fynd ar drywydd trosedd. Fodd bynnag, peidiwch â phostio'r delweddau ar gyfryngau cymdeithasol na'ch gwefan gan fod hyn mewn perygl o dorri cyfreithiau preifatrwydd a GDPR. Os bydd troseddu'n digwydd mewn cerbyd gall CBSC eu holrhain o'u rhif cofrestru.

     Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau am arwyddion 'Dim Cŵn' ac arwyddion 'Baw Cŵn' sy'n dangos y dirwyon y gellid eu rhoi.

     Bydd Emrys Plas yn rhoi'r slab concrid ar gyfer y fainc. Mae'r Clerc wedi talu Carwyn Evans am y llechen a bydd yn talu'r cwmni am y fainc bicnic.

- **Toiledau'r Pentref:**

  Llythyr wedi ei dderbyn gan Sue Hayward yn ymddiswyddo o'i swydd ac yn ychwanegu infois am ei gwaith. Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch at Sue. Y Swydd wag i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf. Y Cynghorydd Ceri i ofyn i swyddog CBSC gyfarfod gyda hi, Cyng John Emlyn a'r Cyng Austin i drafod y toiledau.

  Mae angen trwsio'r drws i'r toiledau gan fod y drws wedi'i dorri. Angen cysylltu gyda CBSC i ofyn iddynt drwsio'r drws.

- **Tro Henblas:**

  Cyng Austin wedi siarad efo'r tir feddianwr ac mae CBSC wedi trwsio'r broblem.

- **Camfeydd y Pentref:**

  Cyng Austin wedi cysylltu gyda ERF i drwsio y gamfa. Ddim ni sydd yn gyfrifol am hyn.

  Cafwyd aml e-bost gan breswylwyr y pentref ynglyn â llwybyr troed Bryn Derw.

  Nid dyna'r hawl tramwy/llwybr troed cyhoeddus cywir gan ei fod yn croesi tir sy'n eiddo i ffermwr lleol. Mae'r hawl tramwy/llwybr cyhoeddus cywir yn beryglus ar hyn o bryd.

  Cyng Gwyn i nodi camfeydd a'u hanfon at ERF.

- **Llwybrau troed/llwybrau ceffylau:**

  Y Cynghorydd Austin i gysylltu â CBSC i ofyn a allant drwsio'r llwybr ceffylau.

- **Awdit 19/20 – 20/21:**

  Gwybodaeth audit 19/20 wedi mynd i Awdit Cymru. Y Clerc wrthi yn gorffen gwybodaeth 20/21.

6. **CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod: 0/48499**
  Ymgeisydd: Medwyn Williams
  Cynllun: Sied ddefaid a gweithdy Safle: Dyffryn Ffordd Llwyn Ddu Eglwysbach LL28 5UH
  Safle: Dyffryn, Ffordd Llwyn Ddu, Eglwysbach, LL28 5UH

  Dim gwrthwynebiad – Holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **Cyfeirnod: 0/48527**
  Ymgeisydd: Mrs & Mr Gwawr & Jonathan Mills

Cynllun: Cais i adeiladu cwt newydd fel garej ddomestig ac i gadw peiriannau a thaclau amaethyddol (tractor a trelar, ac ati, i'w defnyddio ar dir cyfagos). Ynghyd ag adnweyddu cladin allanol ar gwt sy'n bod eisoes, cael gwared â charafán statig a chael gwared â chwt yn y cae hefyd
Safle: Berllan Bach, Eglwysbach Road, Eglwysbach, Conwy, LL28 5UF

Dim gwrthwynebiad – Holl Gynghorwyr yn cytuno.

- **Cyfeirnod: 0/48535**
  Ymgeisydd: E & G Wynne
  Cynllun: Creu iard wedi'i gorchuddio dros bwll silwair ac iard i gasglu gwartheg gan gynnwys sianel slyri newydd i'r lagwn presennol
  Safle: Wern Fawr, Ffordd Pennant, Eglwysbach LL28 5UN

  Eitem agenda mis Gorffennaf.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £8,150.87
Angladdau - £969.20
Cadw - £2,078.21

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £150.00
- Carwyn Evans (Llechen i’r cae chwarae) - £500.00

**Angladdau:**
- Eglwys St Martin’s – cyfraniad blynyddol torri glaswellt - £500.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC - Ymgynghoriad Teithio Llesol:**
  Noder er gwybodaeth. Ychwanegwyd i’r dudalen Facebook.

- **E-Bost: CBSC – Chwaraeon Conwy – cyngor chwaraeon gwirffodol lleol yn Conwy:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-bost: CBSC – Cynlluniau Lles – cais am adborth ymgysylltu dienw diweddar:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth ddrafft 2021-26:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - cau’r ffordd dros nos ar groesfan reilffordd Tal y Cafn:**

- **N**oder er gwybodaeth.

- **E-Byst: – Preswylwyr Eglwys Bach - Llwybrau troed:**
  Trafodwyd yn y cyfarfod.

- **E-bost: Roy Kenrick, Eglwys St Martin's – cyfraniad blynyddol torri glasswellt:**
  Talwyd y cyfraniad blynyddol.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Arwydd Eglwysbach wedi disgyn wrth groesffordd Topan Mawr.
- Unrhyw ddifrod neu erydiad ar lwybrau troed, camfeydd ayyb i'w hanfon at Cyng Ceri i'w cynnwys ar Facebook.
- Bin Halen wedi torri ar Ffordd Cae Forys wrth y garejys.
- Sgip i'w archebu ar gyfer mis Mehefin.
- Llwybyr rhwng y ddwy fynwent yn llithrig. Cyng John Lloyd wedi cysylltu efo Gerallt Tan Lan – pris oddeutu £760.00 + TAW i osod canllaw metel. Cyng Austin yn cynnig derbyn y pris. Cyng Gwyn yn eilio. Yr holl Gynghorwyr yn cytuno.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

06/07/21
07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 8.54 o'r gloch.